Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol

Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd

Llais ac eiriolwr annibynnol
ar gyfer pobl hŷn

Sicrhau mynediad at wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol

Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd

Cyflwynwyd y Canllawiau hyn i awdurdodau lleol a byrddau iechyd yng Nghymru o dan Adran 12 Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006.

O dan y Ddeddf, rhaid i gyrff sy'n destun Canllawiau Adran 12 ystyried y Canllawiau wrth gyflawni eu swyddogaethau.

Gallwch ddarllen yr adran berthnasol o'r Ddeddf yn llawn yma: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/30/section/12

Mae'r Canllawiau hyn yn disgrifio beth ddylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd ei ddarparu fel bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol, ac fel bod hawliau pobl hŷn yn cael eu gwarchod a'u cynnal.

Cynnwys

1. Rhagarweiniad 04

2. Sicrhau tegwch a chydraddoldeb wrth roi mynediad at wybodaeth a gwasanaethau 05

3. Fframweithiau cyfreithiol a pholisi 06

4. Enghreifftiau o ymarfer da 10

Cyfeiriadau 11

1. Rhagarweiniad

Mae'r defnydd cynyddol o dechnoleg ddigidol yn golygu bod y ffyrdd y cawn afael ar wasanaethau a gwybodaeth, a'n ffyrdd o gyfathrebu, wedi newid yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Cyflymodd y newid hwn yn ystod pandemig Covid-19, gydag ystod o wasanaethau digidol newydd bellach yn cael eu darparu gan gyrff cyhoeddus ar draws Cymru.

Fodd bynnag, mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at agendor digidol amlwg iawn yng Nghymru ac mae pobl hŷn wedi rhannu pryderon gyda'r Comisiynydd am gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau wrth i fwy fyth fynd ar-lein.

Er y gall symud gwasanaethau ar-lein a chyflwyno ffyrdd newydd o ryng-gysylltu â'r cyhoedd gynnig manteision posib i rai sy'n gallu cael gafael arnynt – gan olygu llai o angen teithio i apwyntiad er enghraifft – mae hefyd yn bwysig cydnabod y risg o allgau pobl nad ydynt eisiau, neu sy'n methu, cael gafael ar wasanaethau fel hyn, sy'n cynnwys nifer sylweddol o bobl hŷn.

Mae'r newid a welwn ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus felly'n golygu hefyd bod angen sicrhau nad yw pobl yn cael eu hallgau, ac estyn allan i helpu rhai sydd efallai angen cymorth ychwanegol i dderbyn gwasanaethau arnynt.

Fel y noda'r adran ar fframweithiau cyfreithiol a pholisi isod (p5-9) yn fwy manwl, mae'r hawl i gael mynediad at wybodaeth yn rhan allweddol o'r hawl ehangach i ryddid mynegiant ac wedi'i diogelu gan sawl offeryn hawliau dynol, yn cynnwys Cyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a Deddf Hawliau Dynol 1998.

Pwrpas yr offerynnau hawliau dynol hyn yw cefnogi diwylliant o barch at hawliau dynol pawb a sicrhau bod hyrwyddo a chynnal yr hawliau hyn yn nodwedd o fywyd pob dydd.

Rhaid y symud at 'ddigidol yn gyntaf' a welsom ar draws ein gwasanaethau cyhoeddus ddod law yn llaw â mesurau i sicrhau y diogelir hawliau dynol pobl hŷn a bod cymorth ar gael iddynt gael gafael ar y wybodaeth a'r gwasanaethau sydd ei angen arnynt drwy ddulliau all-lein, neu pe byddent yn dewis, drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r hyder i gysylltu ar-lein.

2. Sicrhau tegwch a chydraddoldeb wrth roi mynediad at wybodaeth a gwasanaethau

Mae'r adran yma'n disgrifio beth ddylai awdurdodau lleol a byrddau iechyd ei ddarparu fel bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau mewn oes ddigidol, ac fel bod hawliau pobl hŷn yn cael eu gwarchod a'u cynnal. Cafodd y Canllawiau eu datblygu'n dilyn ymgysylltu'n helaeth â phobl hŷn, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill, gan ddefnyddio ac yn seiliedig ar ymarfer da sydd eisoes yn digwydd mewn rhannau o Gymru.

Grŵp targed	Camau sydd angen eu cymryd
Pobl hŷn nad ydynt ar-lein	Rhoi trefniadau a chyfleusterau yn eu lle i sicrhau bod gan bobl hŷn ffyrdd eraill o gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau.
	Sicrhau bod dulliau o gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau all-lein yn cynnig ffyrdd addas eraill yn hytrach na rhai ar-lein.
	Dylunio dulliau o gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau all-lein mewn ffordd sy'n dangos dealltwriaeth o anghenion pobl, gan gynnwys anghenion iaith.
Pobl hŷn gyda diddordeb mewn mynd ar-lein	Cyflwyno rhaglenni allgymorth i adnabod pobl hŷn sydd eisiau cysylltu'n ddigidol.
	Sicrhau bod cymorth ar gael i helpu pobl hŷn i fynd ar-lein a defnyddio'r we yn ddiogel (yn iaith eu dewis). Gallai'r cymorth hwn gynnwys: • Rhoi mynediad at ddyfeisiau i bobl hŷn • Rhoi mynediad at fand-eang / data 4G • Rhoi cymorth i ennill sgiliau a magu hyder
Pobl hŷn yn defnyddio'r we	Dylai cymorth parhaus fod ar gael i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cynnal a datblygu eu sgiliau ar-lein er mwyn gallu parhau i gael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau wrth i dechnoleg newid a datblygu.
	Dylid darparu gwybodaeth a chyngor i sicrhau bod pobl hŷn yn aros yn ddiogel ar-lein.

3. Fframweithiau cyfreithiol a pholisi

Mae'r adran yma'n rhoi gwybodaeth am y fframweithiau cyfreithiol a pholisi yng Nghymru, sut y maen nhw'n berthnasol i hawliau pobl hŷn i dderbyn gwybodaeth a gwasanaethau, a'r camau y mae angen i gyrff cyhoeddus eu cymryd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau deddfwriaethol.

3.1 Fframwaith Cyfreithiol Hawliau Dynol

Mae'r hawl i dderbyn gwybodaeth yn un elfen o'r hawl ehangach i ryddid mynegiant, sy'n cynnwys yr hawl i dderbyn gwybodaeth a'r hawl i roi gwybodaeth.

Mae'r hawl i ryddid mynegiant wedi'i chynnwys mewn nifer o offerynnau hawliau dynol, gan gynnwys Cyfamod Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol (Erthygl 19),[1] Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, (Erthygl 10[2]), a Deddf Hawliau Dynol 1998.[3]

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i weithredu mewn ffyrdd sy'n gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswydd i weithredu'n unol â Deddf Hawliau Dynol 1998 ac ystyried hawliau dynol yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Rhaid i hyn ddigwydd wrth ddarparu gwasanaeth yn uniongyrchol i'r cyhoedd, neu wrth lunio polisi neu weithdrefn newydd.

Pwrpas y Ddeddf Hawliau Dynol yw cefnogi diwylliant o barch at hawliau dynol pawb a sicrhau bod hyrwyddo a chynnal yr hawliau hyn yn nodwedd o fywyd pob dydd.

3.2 Yr hawl i dderbyn gwybodaeth

Mae'r hawl i dderbyn gwybodaeth yn cynnwys yr hawl i gael mynediad at a chasglu gwybodaeth ac i ofyn am wybodaeth drwy bob cyfrwng cyfreithiol. Hefyd, mae'r hawl i dderbyn gwybodaeth yn cynnwys hawl y cyhoedd i gael eu hysbysu'n ddigonol, gan gynnwys am faterion o fudd cyhoeddus.

Mae'r hawl i dderbyn gwybodaeth hefyd yn hawl hwylusol, hynny yw nid yn unig y mae'n hawl ynddi ei hun, mae hefyd yn chwarae rhan ganolog mewn gwarchod hawliau dynol eraill.

Er enghraifft, yng nghyd-destun y pandemig a'i gyfyngiadau cysylltiedig ar bobl, mae'r hawl i dderbyn gwybodaeth yn hanfodol i sicrhau y diogelir yr hawl i fywyd, yr hawl i fwynhau'r safon uchaf o iechyd corfforol a meddyliol, a'r hawl i chwarae rhan mewn bywyd diwylliannol.[4]

3.3 Yr hawl i dderbyn gwybodaeth a'r oes ddigidol

Mae defnyddio'r we fel ffordd bwysig o ledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu â gwasanaethau'n cael ei gydnabod gan gyrff hawliau dynol. Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop (ECtHR) yn ei alw'n 'gyfrwng hanfodol' i ymarfer yr hawl i ryddid mynegiant:

> **[Mae'r we erbyn hyn wedi dod yn un o'r prif ffyrdd a ddefnyddir gan unigolion i ymarfer eu hawl i ryddid i dderbyn a rhoi gwybodaeth a syniadau, drwy ddarparu cyfryngau hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau a thrafodaethau am faterion gwleidyddol a materion o ddiddordeb cyffredinol. ... yng ngoleuni ei hygyrchedd a'i gapasiti i storio a chyfathrebu peth wmbreth o wybodaeth, mae'r We yn chwarae rôl bwysig mewn ehangu ar fynediad y cyhoedd at newyddion ac mewn hwyluso lledaenu gwybodaeth yn gyffredinol.[5]**

Fodd bynnag, er yn cydnabod y manteision a ddaeth o ledaenu'n ddigidol, mae cyfreithiau hawliau dynol hefyd yn cydnabod bod y datblygiad hwn yn dod law yn llaw â phryderon am argaeledd a hygyrchedd.[6] Mae'r hawl i dderbyn gwybodaeth yn berthnasol nid yn unig i gynnwys y wybodaeth, ond hefyd i sut y mae'n cael ei lledaenu. Mae unrhyw gyfyngiadau a achosir, ac a brofir, gan unigolyn yng nghyswllt y pwynt olaf yn ymyrryd o reidrwydd â hawl yr unigolyn hwnnw neu honno i dderbyn a rhoi gwybodaeth.

3.4 Lledaenu'n ddigidol a phobl hŷn

Mae'r ffaith bod awdurdodau cyhoeddus yn dibynnu ar y we i roi gwybodaeth a gwasanaethau yn creu pryderon penodol ynglŷn â phobl hŷn. Mae Covid-19 wedi amlygu natur y pryderon hyn fel i Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn ei nodi'n ddiweddar:

> **Mae eithrio digidol yn amharu'n sylweddol ar fynediad pobl hŷn at wybodaeth hanfodol am y pandemig a mesurau iechyd ac economaidd-gymdeithasol cysylltiedig. Gall cyfraddau isel o lythrennedd digidol, pwerau anghyfartal mewn cartrefi a allai warafun mynediad i bobl hŷn at ffonau symudol, ynghyd â nam ar glyw neu olwg a namau gwybyddol fel dementia, eithrio pobl hŷn rhag derbyn gwybodaeth am Covid-19 a gwasanaethau cymorth…. Bydd gan bobl hŷn sy'n byw eu hunain, mewn cartrefi gofal, mewn ardaloedd gwledig neu anghysbell, neu mewn ardaloedd heb gysylltedd, lawer llai efallai o fynediad at wybodaeth a drosglwyddir drwy dechnoleg newydd oherwydd diffyg mynediad at ddyfeisiau digidol ynghyd â chymorth a sgiliau digidol prin.**[7]

Mae ei hadroddiad yn argymell:

> **Gyda'r cynnydd a welsom yn y defnydd o wasanaethau ar-lein a symudol o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar symudiadau pobl, mae'n hanfodol sicrhau y gall pobl hŷn gael gafael ar wybodaeth yn hygyrch, o ran iaith a fformat, a'i bod ar gael i rai sydd â mynediad a gwybodaeth brin am wasanaethau ar-lein.**[8]

Mae lledaenu gwybodaeth yn ddigidol yn creu dau gategori angen cwbl wahanol ymhlith pobl hŷn:

1. Rhai na fedrant gael gafael ar wybodaeth ac ymgysylltu â gwasanaethau drwy ddulliau digidol

Dylai hawl unigolion i dderbyn gwybodaeth, os na fedrant gael gafael ar wybodaeth ac ymgysylltu'n ddigidol, gael ei gwarchod a'i chyflawni gan awdurdodau cyhoeddus (fel awdurdodau lleol a byrddau iechyd) drwy ddulliau eraill di-ddigidol.

Mae'r categori angen hwn yn cynnwys pobl hŷn na fedrant gael gafael ar wybodaeth yn ddigidol ar sail eu hiechyd corfforol neu iechyd meddwl, rhai gyda nam ar eu clyw neu olwg, neu nam gwybyddol fel dementia. Mae hefyd yn cynnwys pobl hŷn heb ddim neu fawr ddim sgiliau digidol, a diffyg hyder a nodweddir yn aml gan orbryderu a theimlo eu bod wedi dieithrio o'r byd digidol.

Yn hytrach, dylai'r dulliau o sicrhau bod yr unigolion hyn yn gallu cael gafael ar wybodaeth a gwasanaethau gynnwys amrywiaeth o gyfryngau di-ddigidol fel llinellau ffôn cymorth, canolfannau galwadau, deunydd wedi'i argraffu a chyfarfodydd wyneb yn wyneb.

2. Rhai sydd eisiau cael gafael ar wybodaeth ac ymgysylltu â gwasanaethau'n ddigidol

Gan gydnabod y rôl bwysig y mae'r we yn ei chwarae ym mywydau pobl, ac yn enwedig wrth i rai mathau o wybodaeth ond fod ar gael ar y we, gwelwn fod Llys Hawliau Dynol Ewrop, a chyrff hawliau dynol eraill, bellach yn datblygu hawl dynol i gael mynediad i'r we o dan Erthygl 10.

Gwneir hyn drwy ymestyn y ddyletswydd gadarnhaol bresennol ar wledydd i hyrwyddo a hwyluso'r hawl i ryddid mynegiant drwy gynnwys ymrwymiad i hwyluso mynediad i'r we.[9] Er hynny, rhaid nodi bod yr ECtHR wedi penderfynu na ellir dehongli Erthygl 10 fel offeryn sy'n rhoi ymrwymiad cyffredinol [ar wledydd] i roi mynediad i'r we.[10]

Fodd bynnag, mae cyrff hawliau cyhoeddus fel Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Ryddid Mynegiant wedi argymell droeon y dylai llywodraethau wneud popeth posib i hyrwyddo mynediad i'r we, gan gynnwys ehangu telathrebu i ardaloedd gwledig a rhai gyda diffyg gwasanaeth, lleihau rhwystrau ariannol a chynorthwyo pobl a wthiwyd i'r ymylon / pobl hŷn a allai fod angen cymorth i hyfforddi.

Mewn adroddiad diweddar, cyfeiriodd Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar Ryddid Mynegiant yn benodol at y berthynas rhwng mynediad i'r we a'r hawl i fywyd yn ystod argyfwng cyhoeddus:

> **Yn ystod pandemig byd-eang, dylid ail-ddatgan yr hawl i gael mynediad i'r we a'i gweld am yr hyn ydyw: elfen hollbwysig o bolisi ac ymarfer gofal iechyd, gwybodaeth gyhoeddus a hyd yn oed yr hawl i fywyd…mae'r pandemig a phwysigrwydd cael mynediad digidol at wybodaeth gofal iechyd yn dangos bod taer angen ehangu ein seilwaith i ganiatáu ar gyfer mynediad yn y lle cyntaf.**[11]

Drwy weithredu i hyrwyddo mynediad i'r we (gyda'r gair 'mynediad' i'w ddehongli yn ei ystyr ehangaf i gynnwys cysylltedd, mynediad at ddyfeisiau digidol, a hyfforddiant), mae gan bob gwlad ddyletswydd i weithredu mewn ffordd ddi-wahaniaethol sy'n cynnwys bod angen trin pobl ar sail eu hanghenion ac nid o reidrwydd yn yr un ffordd.

Hefyd, mae'r egwyddor o wasanaeth cymunedol cyffredinol (fel y nodir hynny yn Argymhelliad Rhif R(99)14 y Pwyllgor Gweinidogion, Cyngor Ewrop[12]) yn pwysleisio y dylai awdurdodau cyhoeddus wneud ymdrechion rhesymol i hwyluso mynediad i'r we ar gyfer categorïau penodol o unigolion fel rhai sy'n byw mewn ardaloedd anghysbell a phobl ag anableddau. Mae'n pwysleisio y gall rhai ar incwm isel neu ag anghenion arbennig neu anabledd ddisgwyl mesurau penodol gan awdurdodau cyhoeddus o ran eu mynediad i'r we.

Mae methu ag ymateb fel hyn i wahanol anghenion gan grwpiau mewn cymdeithas, gan gynnwys anghenion pobl hŷn, yn codi pryderon o dan Erthygl 10 o'i darllen ar y cyd ag Erthygl 14 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr hawl i gael eich trin yn ddi-wahaniaethol); yn ogystal ag o dan y darpariaethau union ac anuniongyrchol ar wahaniaethu yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

3.5 Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried anghenion rhai gyda nodweddion gwarchodedig fel rhan o'u dyletswyddau cyffredinol i 'hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a rhai nad ydynt yn ei rhannu' a hefyd i "ddileu neu leihau anfanteision a ddioddefir gan bobl oherwydd eu nodweddion gwarchodedig".[13]

Ar 31 Mawrth 2021, cafodd y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ei deddfu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a chyhoeddwyd hefyd ganllawiau statudol i gyrff cyhoeddus sydd ag ymrwymiad i gyflawni'r dyletswyddau.[14] Mae'r enghreifftiau o ganlyniadau anghyfartal a roddir yn y canllawiau'n nodi bod eithrio pobl yn ddigidol, a mynediad at wasanaethau, yn elfennau o gyfranogiad sy'n amlwg yn dangos cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chanlyniadau anghyfartal.[15] Mae'r canllawiau hefyd yn amlygu'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol, anghydraddoldeb, a hawliau dynol.

O gofio bod y gost o fynd ar-lein wedi'i adnabod fel un o'r rhwystrau mwyaf cyffredin i bobl hŷn yn mynd ar-lein gan Gynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru,[16] efallai y bydd raid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd roi cymorth ariannol i bobl hŷn sydd eisiau mynd ar-lein i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

3.6 Strategaeth Ddigidol i Gymru

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Ddigidol i Gymru'n disgrifio ei gweledigaeth ar gyfer sut y gall digidol wella bywydau pawb drwy gydweithredu, arloesi a gwasanaethau cyhoeddus gwell. Mae'r strategaeth yn cynnwys chwe chenhadaeth i gyd-fynd â'r weledigaeth.

Adlewyrchir anghenion y bobl nad ydynt ar-lein yn Rhagolwg Cynhwysiant Digidol[17] Llywodraeth Cymru ac yn y Strategaeth Ddigidol i Gymru – Cenhadaeth 2 – Cynhwysiant Digidol[18], sy'n nodi:

> **I'r bobl na fedrant neu sy'n penderfynu peidio â chyfranogi'n ddigidol, byddwn yn parhau i weithredu egwyddorion 'dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr' fel bod ffyrdd eraill i gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y dulliau eraill o gael gafael ar wasanaethau cystal â'r dulliau ar-lein.**

3.7 Safonau Drafft ar gyfer Gwasanaethau Digidol

Un o'r pethau allweddol i wireddu'r weledigaeth yn y Strategaeth Ddigidol i Gymru fydd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, a sefydlwyd yn 2020.

Mae Safonau Gwasanaethau Digidol Drafft y Ganolfan ar gyfer Cymru hefyd yn glir bod angen 'deall defnyddwyr a'u hanghenion'[19] gan nodi:

> **"Dylai timau geisio rhoi sylw i siwrne'r defnyddiwr o'r dechrau i'r diwedd, gan ddeall y gwahanol ffyrdd a dulliau a ddefnyddir gan bobl i gysylltu â gwasanaethau, p'un ai ar-lein, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Mae gwasanaethau cyhoeddus i bawb, felly rhaid ystyried hygyrchedd. Dylai pob cyswllt, ar-lein neu all-lein, symud y defnyddiwr yn nes at y nod.**

4. Enghreifftiau o ymarfer da

Wrth ddatblygu'r Canllawiau hyn, rhannodd randdeiliaid amryw byd o enghreifftiau o ymarfer da. Rhoddwn rai o'r enghreifftiau hyn isod, gan ddangos y mathau o 'ymyriadau' y gallai awdurdodau lleol a byrddau iechyd fod eisiau canolbwyntio eu hymdrechion arnynt wrth ddatblygu cynlluniau cymorth a strategaethau, gan hefyd ystyried y Canllawiau hyn.

Mynediad di-ddigidol at wybodaeth a gwasanaethau	
Darparu gwybodaeth drwy ddulliau di-ddigidol	• Gwasanaethau ffôn • Llyfrynnau gwybodaeth • Cylchlythyrau / bwletinau
Darparu cymorth a chefnogaeth	• Datblygu gwasanaethau 'cysylltu i' wyneb yn wyneb • Pwyntiau mynediad unigol / canolfannau galw heibio • Datblygu mwy ar wasanaethau ffôn sy'n gallu rhoi gwybodaeth a chymorth
Helpu pobl hŷn i fynd ar-lein	
Estyn allan at bobl hŷn	• Gweithio gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol yn y gymuned i adnabod ac estyn allan at bobl hŷn sydd eisiau mynd ar-lein

	• Helpu i ddileu'r rhwystrau a allai atal pobl hŷn rhag mynd ar-lein, gan gynnwys cost, cysylltedd, sgiliau a chymhelliad:
	  • Darparu dyfeisiau (digidol)
	  • Darparu bwndeli data / donglau WiFi 'talu ymlaen llaw'
	  • Gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i sefydlu rhwydweithiau lleol o Gyfeillion Digidol i helpu pobl hŷn i ennill sgiliau a magu hyder ar-lein
	  • Cynorthwyo staff rheng flaen i fod yn fwy digidol hyderus er mwyn gallu bod yn Bencampwyr Digidol i helpu pobl hŷn
	  • Sefydlu hybiau cymorth digidol 'galw heibio' i roi cymorth parhaus, ateb cwestiynau a datrys problemau pobl
	  • Gwella'r cymorth digidol sydd ar gael drwy lyfrgelloedd / hybiau cymunedol

Mae rhestr bellach o enghreiffitiau a rannwyd â'r Comisiynydd ar gael yma:
http://www.olderpeoplewales.com/cy/Publications/digitalguidance/goodpractice.aspx

Cyfeiriadau

1 UN International Covenant on Civil and Political Rights (Article 19) - Ar gael yn: https://www.ohchr.org/en/professionalinterest/pages/ccpr.aspx

2 European Convention on Human Rights (Article 10) - Ar gael yn: https://www.echr.coe.int/documents/convention_eng.pdf

3 Human Rights Act 1998 - Ar gael yn: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1998/42/contents

4 Article 6 UN International Covenant on Civil and Political Rights; Article 12 15 UN International Covenant on Economic, Social and Cultural Rights; Article 15 UN International Covenant on Economic, Social and Cultural Rights

5 Cengiz and Others v. Turkey, barn 1 Rhagfyr 2015, §§ 49 and 52

6 Kalda v. Estonia 19 January 2016 (barn)

7 Impact of the coronavirus disease (COVID-19) on the enjoyment of all human rights by older persons' report of the Independent Expert on the enjoyment of all human rights by older persons, Claudia Mahler, in accordance with Human Rights Council resolution 42/12. Ga A/75/205. Para 54 -57- Ar gael yn: https://digitallibrary.un.org/record/3879146?ln=en

8 ibid; Para 87

9 Mae rhwymedigaethau cadarnhaol yn gosod dyletswydd ar awdurdodau'r Wladwriaeth i gymryd camau gweithredol er mwyn diogelu hawliau. Yn y rhan fwyaf o achosion nid yw'r rhain wedi'u nodi'n benodol yn y testun ond maent wedi'u awgrymu ynddo gan lysoedd. Mewn cyferbyniad, mae rhwymedigaethau negyddol yn gosod dyletswydd ar awdurdodau'r Wladwriaeth i ymatal rhag gweithredu mewn ffordd sy'n ymyrryd yn anghyfiawn â hawliau. Mae'r mwyafrif o hawliau wedi'u fframio fel hyn.

10 Jankovskis v. Lithunania 17 Ionawr 2017 (barn)

11 United Nations Human Rights Office of the High Commissioner (2020) A/HRC/44/49: Report of the Special Rapporteur on the promotion and protection of the right to freedom of opinion and expression - Ar gael yn: https://www.ohchr.org/Documents/Issues/Opinion/A_HRC_44_49_AdvanceEditedVersion.docx

12 Council of Europe Committee of Ministers, Recommendation No. R (99) 14 of the Committee of Ministers to Member States on Universal Community Service Concerning New Communication And Information Services - Ar gael yn: https://search.coe.int/cm/Pages/result_details.aspx?ObjectId=0900001680502333

13 Deddf Cydraddoldeb - Dyletswyddau Penodol Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru - Ar gael yn: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/arferion-asesu-effeithiau-ar-gydraddoldeb-yng-nghymru/dyletswyddau-penodol-cymru/

14 Llywodraeth Cymru (2021) Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: canllawiau - Ar gael yn: https://llyw.cymru/y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol-canllawiau

15 Llywodraeth Cymru: Dyletswydd economaidd-gymdeithasol: enghreifftiau o anghydraddoldebau canlyniad - Ar gael yn: https://llyw.cymru/dyletswydd-economaidd-gymdeithasol-enghreifftiau-o-anghydraddoldebau-canlyniad

16 Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru (2021) O Gynhwysiant i Gydnerthedd: Agenda ar gyfer cynhwysiant digidol - Ar gael yn: https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/gynhwysiant-i-gydnerthedd/

17 Llywodraeth Cymru (2020) Rhagolwg Cynhwysiant Digidol: tuag at Gymru ddigidol hyderus - Ar gael yn: https://llyw.cymru/rhagolwg-cynhwysiant-digidol-tuag-gymru-ddigidol-hyderus-html

18 Llywodraeth Cymru (2021) Strategaeth ddigidol i Gymru - Ar gael yn: https://llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru-html

19 Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (2021) - Safonau Gwasanaeth Digidol - Ar gael yn: https://gwasanaethaucyhoeddusdigidol.llyw.cymru/blwch-offer/safonau-gwasanaeth-digidol/

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru'n gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion i wella eu bywydau. Mae'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achosion ac mae'n gweithio i rymuso pobl hŷn i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed ac y gweithredir yn ei gylch.

Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres o bwerau cyfreithiol unigryw i'w chefnogi gydag adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal yn atebol pan fo angen.

Mae'r Comisiynydd am weld Cymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, lle mae hawliau'n cael eu cynnal a lle nad oes neb yn cael ei adael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640670
E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com
Gwefan: www.olderpeoplewales.com
Trydar: @comisiwnphcymru

Fformatau Hygyrch

Os hoffech dderbyn y cyhoeddiad hwn mewn fformat arall ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae pob un o'n cyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn nifer o fformatau gwahanol oddi ar ein gwefan.